CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR LLAWN, 1af o FEHEFIN 2021 - CYFARFOD RHITHIOL

Yn bresennol: Ei Theilyngdod Y Maer – Cynghorydd M.Sarnacki (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr W.L.Davies, A.Hopcyn, E.R.Hughes, D.L.Jones, K.Jones, C.Larsen, E.Lovgreen, B.Owen, W.R.Owen, W.Tudor Owen, S.Sage, I.C.Thomas, C.Williams

---

1. **Ymddiheuriadau**

Y Cynghorwyr J.W.Parry, R.Thomas

2. **Cyhoeddiadau'r Maer**

Profedigaeth

Cyfeiriodd y Maer at brofedigaeth y Cynghorydd R.Thomas, a oedd wedi colli ei fam yng nghyfraith, a chydymdeimlodd gydag ef a'i deulu yn eu profedigaeth.

Yn ogystal, cydymdeimlodd ag eraill oedd wedi colli anwyliaid yn ystod y cyfnod diweddar.

3. **Datgan Buddiant Personol**

Dim.

4. **Eitemau Brys (Cadeirydd / Clerc**)

(1) Ymgynghoriad Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (GDMC): Rheoli Cŵn

Nododd y Clerc fod Cyngor Gwynedd yn cynnal ymgynghoriad statudol i ystyried a ddylid cyflwyno Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC) ar gyfer rheoli cŵn.

Gan fod angen ymateb erbyn yr 21ain o Fehefin, bydd y Clerc yn anfon gwybodaeth am yr ymgynghoriad at yr aelodau.

(2) Tendr Goleuadau Nadolig 2021-24

Nododd y Clerc fod y tendr Goleuadau Nadolig wedi cau am 5.00 p.m. ar y 1af o Fehefin, a'i fod efo a'r Maer am eu hagor yn dilyn hynny. Roedd angen hysbysu'r cwmni llwyddiannus erbyn y 5ed o Orffennaf. Cyn hynny roedd

angen sgorio'r tendrau, a bydd y Clerc yn trefnu hynny gyda chynrychiolaeth o'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Adloniant.

5. Cofnodion

I gadarnhau'r cofnodion canlynol:

i. Cyngor Llawn – 4ydd o Fai 2021

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir (unfrydol).

ii. Cyfarfod Blynyddol, 20fed o Fai 2021

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir (unfrydol).

6. Cwmni Hyd Braich

Roedd y Cyngor Llawn wedi penderfynu, yn ei gyfarfod ar y 4ydd o Fai 2021, i gytuno ar yr egwyddor o greu Cwmni Hyd Braich, o dan arweiniad Rhian George, Cyngor Gwynedd. Yn sgil hyn, cafwyd cyflwyniad ganddi o ran yr opsiynau a'r goblygiadau o ran y Cyngor Tref yn sefydlu Cwmni Hyd Braich, lle fu iddi roi'r manylion a'r opsiynau posib i'r Cyngor Tref.

Penderfynwyd gofyn i Rhian anfon y cyflwyniad at y Clerc fel ei fod yn gallu ei raeadru i holl aelodau'r Cyngor (unfrydol).

Cyrhaeddodd y Cynghorydd W.Roy Owen y cyfarfod am 6.30 p.m.

7.Cyfrifon

Penderfynwyd derbyn a'u talu (unfrydol).

8.Cysoni Cyfrifon

Cyflwynwyd gwybodaeth o ran:
(a) Diwedd y flwyddyn ariannol 2020/21.
(b) Mai 2021.

Penderfynwyd derbyn er gwybodaeth (unfrydol).

9. Archwiliad 2020/21

Cyflwynwyd gwybodaeth am Archwiliad 2020/21.

Nododd y Clerc:
(1) Bod yr Archwilydd Mewnol wedi codi un pwynt yn eu llythyr oedd efo'r cyfrifon, o ran yr Arian Parod.
(2) Bydd y Clerc a'r Dirprwy yn hel y gwaith papur perthnasol at ei gilydd, ac yn anfon popeth ymlaen at yr Archwilydd Allanol.

Penderfynwyd derbyn y canlynol (unfrydol):

(1) Llythyr gan W.J.Matthews a'i Fab yn datgan nad oedd gwrthdaro o ran buddiannau.

(2) Llythyr gan W.J.Matthews a'i Fab yn codi'r pwynt uchod o ran Arian Parod.

(3) Ffurflen Flynyddol Cynghorau Cymuned a Chynghorau Tref yng Nghymru ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar y 31ain o Fawrth 2021 a'r holl waith papur a chyfrifon.

10. Cyfarfod cyntaf ar ôl cyfarfod blynyddol

Gan mai hwn yw'r cyfarfod cyntaf ar ôl y Cyfarfod Blynyddol, trafod yr eitemau canlynol:

(i) Adolygu trefniadau unrhyw ddirprwyo i bwyllgorau / is-bwyllgorau
(ii) Adolygu cylch gorchwyl pwyllgorau

Penderfynwyd derbyn y Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau ac Is-bwyllgorau, a pharhau gyda'r trefniadau presennol, sef mai dim ond y Pwyllgor Cynllunio sydd â'r hawl i weithredu (unfrydol).

(iii) Derbyn enwebiadau ar gyfer pwyllgorau presennol

Penderfynwyd derbyn yr enwebiadau ar gyfer pwyllgorau presennol (unfrydol).

(iv) Enwebiadau cyrff allanol.

Penderfynwyd derbyn yr enwebiadau ar gyfer pwyllgorau presennol, gan nodi nad oedd cais am enwebiadau ar gyfer cyrff llywodraethol ysgolion wedi ei dderbyn hyd yma gan yr Adran Addysg (unfrydol).

(v) Penodi unrhyw bwyllgorau newydd

(vi) Mabwysiadu rheolau sefydlog

Penderfynwyd derbyn a mabwysiadu'r Rheolau Sefydlog gyda'r diwygiadau a nodir yn isod (unfrydol):

"15. SWYDDOG PRIODOL

a Y Swyddog Priodol fydd naill ai (i) y clerc **(neu yn ei absenoldeb y dirprwy glerc)** neu (ii) aelod(au) staff eraill a enwebwyd gan y Cyngor i gyflawni gwaith y Swyddog Priodol pan mae'r Swyddog Priodol yn absennol.

16. SWYDDOG ARIANNOL CYFRIFOL

a Bydd y Cyngor yn penodi'r **dirprwy glerc** i gyflawni gwaith y Swyddog Ariannol Cyfrifol pan mae'r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn absennol."

(vii) Mabwysiadu rheolau ariannol

Penderfynwyd derbyn y Rheoliadau Ariannol (unfrydol).

(viii) Mabwysiadu cod ymddygiad.

Penderfynwyd derbyn y Cod Ymddygiad (unfrydol).

(ix) Mabwysiadu rhestr asedau

Penderfynwyd derbyn y Rhestr Asedau, a gofyn i'r Clerc drefnu fod y pethau mwyaf gwerthfawr (er enghraifft Deffroad Cymru) yn cael gwerthusiad gwerth mwy diweddar (unfrydol).

(x) Mabwysiadu asesiad risg ariannol

Penderfynwyd derbyn yr Asesiad Risg Ariannol (unfrydol).

(xi) Adolygu aelodaeth y Cyngor / neu weithwyr o gyrff eraill

Penderfynwyd parhau gydag Unllais Cymru, yr SLCC a'r Cylch Cyfeillgarwch Trefi Caerog (unfrydol).

(xii) Adolygu trefniadau cwynion – ar y wefan

Penderfynwyd derbyn y Drefn Gwynion (unfrydol).

(xiii) Adolygu polisïau – ar y wefan – sylwadau i'r Clerc o flaen llaw

Penderfynwyd derbyn y Polisïau (unfrydol).

(xiv) Penodi Archwilydd Mewnol 2021/22

Penderfynwyd penodi Mr David Chidley fel Archwilydd Mewnol eto o WJ Matthews a'i Fab (unfrydol).

11. Digwyddiadau 2021

Cyflwynwyd gohebiaeth gan Reolwr Digwyddiadau Cyngor Gwynedd yn gofyn am farn am ddigwyddiadau sy'n bwriadu cymryd lle yn ystod 2021:

- Open Adventure 17th Gorffennaf 2021 Rasys Beics yn cychwyn yn y Maes
- Ffair ar y Maes - Gorffennaf – Medi 2021
- Caernarfon Half Marathon 19th Medi 2021cychwyn a darfod ar y Maes

Penderfynwyd bod y Cyngor yn awyddus i unrhyw ddigwyddiad gymryd lle os oedd yn unol â chanllawiau a rheoliadau diweddaraf Llywodraeth

Cymru. Ni ddylai unrhyw ddigwyddiad gymryd lle os nag oedd yn cydymffurfio gyda'r canllawiau diweddaraf.

Gadawodd y Cynghorydd W.L.Davies y cyfarfod am 7.00 p.m.

12. Cyflenwad Trydan

Cyflwynwyd gohebiaeth gan Business Utility Renewals yn cynnig opsiynau ar gyfer cyflenwad trydan Adeilad yr Institiwt.

Penderfynwyd cyfeirio'r mater i'r Pwyllgor Cyllid ac edrych ar opsiynau fel Duel Fuel (unfrydol).

13. Cysgodfa dros yr Aber

Cyflwynwyd e-bost gan Swyddog Morwrol Cyngor Gwynedd yn tynnu sylw at gyflwr difrifol cysgodfa Tros Yr Aber ac yn ceisio barn y Cyngor Tref ar ddyfodol y gysgodfa.

Roedd yr e-bost yn nodi:

(1) Bod cysgodfa Tros Yr Aber mewn cyflwr difrifol, ac yn ceisio barn y Cyngor Tref ar ddyfodol y gysgodfa. Roedd dŵr wedi gallu llifo i mewn i'r concrit ac mae hyn wedi cael effaith niweidiol ar y metel sydd yn rhoi cryfder i'r to concrit.

(2) Y gosodwyd ffens ddiogelwch oddi amgylch y gysgodfa fel na ellir ei defnyddio oherwydd perygl y byddai concrit yn disgyn ac achosi anaf difrifol i ddefnyddiwr.

(3) Mai barn yr Uned Forwrol yw y dylai'r gysgodfa gael ei dymchwel gan nad oedd bellach yn gost effeithiol i'w gynnal.

(4) Y gofynnir am farn y Cyngor Tref ar ddau opsiwn, sef:

1. Tynnu'r to concrit lawr yn unig gan adael y muriau mewn lle a monitro cyflwr y waliau yn rheolaidd.
2. Dymchwel y gysgodfa yn gyfan gwbl, gan osod meinciau eistedd neu fainc picnic ar y safle.

(5) Nid yw Cyngor Gwynedd mewn sefyllfa i adeiladu cysgodfa newydd ar y safle oni bai byddai gan Gyngor Tref Caernarfon efo diddordeb mewn ariannu'r gysgodfa a mabwysiadu'r safle at y dyfodol.

Penderfynwyd (unfrydol):

(1) Mai'r opsiwn gorau fyddai dymchwel y gysgodfa yn gyfan gwbl, ond cyfeirio'r mater i'r Pwyllgor Gwaith er mwyn trafod gwahanol opsiynau.

(2) Holi Cyngor Gwynedd beth sy'n digwydd o ran codi ffens rhwng y lleoliad yma a Phont yr Aber.

14. Drysau Agored 2021

Cyflwynwyd e-bost gan y Tîm Drysau Agores yn rhoi gwybodaeth ar Ddrysau Agored 2021.

Nodwyd:

(1) Yr anogir unrhyw un sy'n berchen ar eiddo diddorol neu'n gweithio mewn un, neu sydd â diddordeb mewn treftadaeth, i gymryd rhan yn rhaglen Drysau Agored, rhwng y 1af a'r 30ain o Fedi.
(2) Y gellir cofrestru'r digwyddiadau hyd at y 1af o Orffennaf.

Penderfynwyd (unfrydol):

(1) Cofrestru Adeilad yr Institiwt i gynnal Diwrnod Agored, fel ag oedd yn digwydd cyn dyddiau Covid.
(2) Sicrhau bod asesiad risg Covid mewn lle cyn i'r digwyddiad gymryd lle.

15. "World Refill Day"

Cyflwynwyd e-bost yn rhoi gwybodaeth ar "World Refill Day".

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth (unfrydol).

16. Glyn Rhonwy

Cyflwynwyd gohebiaeth ar gynlluniau yn Glyn Rhonwy oedd angen sylwadau erbyn y 4ydd o Fehefin.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth (unfrydol).

17. Datganiad Ysgrifenedig: Gweithredu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Cyflwynwyd gwybodaeth am y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Nodwyd:

(1) O'r 1af o Fai roedd angen i awdurdodau lleol wneud trefniadau i sicrhau y gellir cynnal eu cyfarfodydd yn rhithwir, a bod awdurdodau lleol yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Cynghorau Cymuned.
(2) Yn ogystal, bydd newidiadau i'r modd y ceir mynediad at ddogfennau, a'r modd y bydd gwysiau'n cael eu hanfon o'r 1af o Fai. Bydd yn rhaid i gofnodion drafft y Cyngor Llawn fod ar gael o fewn 7 diwrnod o ddyddiad y cyfarfod.

Penderfynwyd nodi'r uchod (unfrydol).

18. Cwestiynau

Y Cynghorydd Ann Hopcyn

Beth yw'r diweddaraf o ran ymateb Cyngor Gwynedd o ran y mater campervans?

Nododd y Clerc y bydd yn edrych i mewn i'r mater.

Y Cynghorydd Stuart Sage

Ydi o'n bosib i Gyngor Gwynedd fynd o gwmpas i wirio pwy oedd yn parcio campervans dros yr Aber yn ystod oriau mân y bore?

Nododd y Clerc y bydd yn edrych i mewn i'r mater.

Y Cynghorydd Keith Jones

Ydi o'n bosib edrych i mewn i be all gael ei wneud o ran y llanast mewn ffenestri siopau fel Poundstretchers?

Nododd y Clerc y bydd yn edrych i mewn i'r mater.

19. Cau Allan y Wasg a'r Cyhoedd

Penderfynwyd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972 (unfrydol).

20. Grant CaerAilGyfle

Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig yn rhoi diweddariad ar yr uchod.

(1) Roedd y Bwrdd wedi cyfarfod ar yr 11eg o Fai, a bod nodyn o'r cyfarfod yn yr adroddiad.

(I) Materion yn ymwneud â'r adeilad.

(1) Roedd y gwirfoddolwyr wedi bod yn brysur iawn yn gwneud gwaith megis codi'r llawr, symud y rhewgelloedd o'r Clwb Rygbi a chlirio rwbel o du allan y siop.
(2) Trefnwyd cael EDF fel y cyflenwr trydan, gyda'r cytundeb am un flwyddyn. Roedd angen sortio rhai materion ymarferol efo'r trosglwyddiad.
(3) Bod Rentokill wedi bod yn yr adeilad ac roedd contract wedi ei wneud efo nhw.
(4) Roedd y Cydlynydd wedi cysylltu efo Cyngor Gwynedd o ran y tipio slei bach.
(5) Roedd y cwmni glanhau wedi gwneud ei waith yn yr adeilad erbyn hyn o ran y "deep clean".

(6) Dyma faterion eraill roedd angen sylw ar adeg ysgrifennu'r adroddiad:

- **Ffrynt yr adeilad** – angen ei beintio.
- **Gwaith coed tu fewn a thu allan** – roedd cwmni Owen & Palmer yn dod i wneud y gwaith coed a gwaith trydanol.
- **Archwiliad Trydanol** – hwn wedi ei wneud.
- **Dŵr** – wedi cofrestru efo Dŵr Cymru.
- **Gosod y llawr** – bydd cwmni Ross Hughes yn dod i osod y llawr.
- **Treth Busnes -** roedd angen i'r Cydlynydd barhau i wneud ymholiadau.
- **Slatboard a fittings y siop**
- **Peintio tu mewn**
- **De-humidifier** - angen trefnu i gefn y siop gan nad oedd vents yno.
- **Teils nenfwd** – angen gosod.
- **Internet a landline i'r siop** – angen sortio
- **Logo a Brandio** – cyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer y 26ain o Fai.
- **Camera Diogelwch**
- **Til**
- **Cofrestr Asbestos**
- **Sortio allan y dŵr oedd yn dod i mewn trwy'r to** – wedi cysylltu efo'r Asiant

(II) Materion Cyflogaeth

Roedd y Cydlynydd wedi cychwyn yn ei swydd ers y 1af o Fai, ac wedi bod yn brysur yn cydgordio'r gwaith.

(III) Materion Cyllid

Roedd y Cyngor yn cytuno ar yr egwyddor o greu Cwmni Hyd Braich, o dan arweiniad Rhian George, Cyngor Gwynedd. Bydd hyn yn gymorth i ddenu cyllid.

Gydag aelod o staff, a rhent i'w dalu yn fisol, yn ogystal â goblygiadau yswiriant a biliau cyfleustodau, ei bod yn bwysig mynd ati yn syth i ffeindio cyllid os am barhau'r prosiect.

Penderfynwyd (unfrydol):

(1) Nodi'r adroddiad a'r camau sydd eisoes wedi cymryd lle, a bod angen trefn fel y gall holl aelodau'r Cyngor gael mewnbwn a pherchnogaeth i'r Cynllun, drwy'r ffrydiau gwaith sy'n bwydo i'r Bwrdd.

(2) Gwahodd y Wasg yn ôl i mewn i'r cyfarfod.

Gorffennodd y cyfarfod am 7.20 p.m.

Arwyddwyd .....

Dyddiad .....